Heneb

# CYTUNDEB TRWYDDED ar DDARPARIAETH HENEB:<br>YR YMDDIRIEDOLAETH AR GYFER DATA ARCHAEOLEG COFNOD<br>YR AMGYLCHEDD HANESYDDOL CYMRAEG

**1. *Y partïon sydd yn gysylltiedig â'r cytundeb hwn***

Mae'r cytundeb ar gyfer darparu data Cofnod yr Amgylchedd Hanesyddol (CAH) rhwng Heneb: Yr Ymddiriedolaeth ar gyfer Archaeoleg Cymru (y trwyddedwr o hyn ymlaen) a'r ymholwr (y trwyddedig o hyn ymlaen).

**2. *Ystod y cytundeb***

***2.1*** Bydd y cytundeb yn ddilys am gyfnod o 1 mlynedd o gyflwyno'r ymholiad.

***2.2*** Wedi'r cyfnod hwn dilëir dataset CAH o systemau cyfrifiadur y trwyddedig, gan gynnwys atodiadau ebost yn ogystal ag unrhyw gyfrwng symudol fel priciau data neu ddisgiau.

***2.3*** Ni chaiff y trwyddedig rybudd awtomatig o unrhyw ddata newydd a drosglwyddwyd i CAH yn ystod cyfnod y cytundeb hwn. Pe bai'r prosiect yn parhau wedi'r cyfnod 1 mlynedd, dylid sicrhau cytundeb newydd ac ymgymryd ag ymholiad newydd. Ni ellir ymestyn y cytundeb hwn.

**3. *Natur y defnydd***

Dylid defnyddio'r data a gyflwynir ar gyfer y pwrpas a nodwyd, wedi ei gynnal gan y trwyddedig, o fewn ystod y cytundeb. Dylai'r trwyddedig ddeall na ellir defnyddio data CAH ar gyfer unrhyw bwrpas ag eithro'r pwrpas a nodwyd.

**4. *Data***

***4.1*** Cyflwynir dataset CAH yn fformat Shapefile & CSV. Cyflwynir catalog atodol yn fformat PDF.

***4.2*** Cyfrifoldeb y trwyddedig yw cyflwyno unrhyw ddata map digidol OS trwyddedig a thrwyddedau meddalwedd GIS.

**5. *Cyfyngiadau ar ddefnyddio***

***5.1*** Darperir y data i'w ddefnyddio gan y trwyddedig ar gyfer y prosiect fel yr amlinellir yn Rhan 3 o'r cytundeb hwn yn unig.

***5.2*** Ni ddylid newid data digidol CAH fel y'i cyflwynir na'i drosglwyddo i unrhyw drydydd parti mewn unrhyw fformat o fewn telerau'r cytundeb hwn. Ni ddylid rhannu data CAH gydag unrhyw drydydd parti oni bai y'i cytunwyd gyda CAH.

***5.3*** Dylid trafod atgynhyrchu gwybodaeth gyda CAH Heneb er mwyn osgoi unrhyw broblemau gyda Hawlfraint y Goron a chyfrinachedd cleient.

***5.4*** Rhaid cydnabod CAH Heneb mewn unrhyw waith (wedi neu heb ei gyhoeddi) sydd yn deillio o unrhyw brosiect mae wedi cyfrannu iddo.

***5.5*** Ni ddylid defnyddio na chadw data wedi'r dyddiad a nodwyd yn y cytundeb hwn.

***5.6*** Dylid diraddio Cyfeirnodau Grid Cenedlaethol (CGC) yn ymwneud â mannau darganfod sydd yn gynwysedig yn y dataset a ddarparwyd i 4 rhif mewn unrhyw gynnyrch (wedi neu heb ei gyhoeddi) sydd yn deillio o'r gwaith.

**6. *Darparu gwybodaeth newydd neu wedi ei ddiweddaru i CAH***

***6.1*** Dylai'r trwyddedig gyflwyno unrhyw wybodaeth newydd neu wedi ei ddiweddaru sydd yn deillio o ddefnydd neu ddadansoddi data CAH i'r CAH o fewn 6 mis o ddarfod y prosiect, neu o fewn cyfnod sydd wedi ei gytuno gyda CAH o flaen llaw.

***6.2*** Rhaid i bob gwybodaeth newydd neu sydd wedi ei ddiweddaru gyfarfod â'r safonnau a'r meini prawf a amlinellir yn Cyfarwyddiadau ar gyfer Cyflwyno Data i Gofnodion Amgylchedd Hanesyddol Cymru (CAH) a sêl bendith CAH.

## Gwybodaeth Ychwanegol

**1.** Ni ddylid rhannu data CAH gydag unrhyw drydydd parti oni bai fod hynny wedi ei gytuno.

**2.1 - 2.3** Ychwanegir gwybodaeth newydd i CAH yn ddyddiol. Pe baech yn dymuno parhau i ddefnyddio data CAH wedi'r cyfnod dan sylw'r cytundeb hwn, rhaid sicrhau ail gytundeb ac ymchwiliad data. Bydd hynny'n sicrhau'r wybodaeth mwyaf diweddar, ac yn helpu i amddiffyn yr adnodd archaeolegol.

**3.** Mae'r trwyddedig yn ymrwymo i beidio defnyddio data CAH at unrhyw bwrpas ag eithro'r hyn a nodwyd.

**4.1** Gallwn gyflwyno data yn y fformatau canlynol: PDF, HMTL, SHP (Esri Shapefile), CSV (ar gyfer Microsoft Excel). Pe baech angen fformat gwahanol, cysylltwch â CAH yn uniongyrchol.

**5.2** Rhoddir caniatad i'r trwyddedig rannu gwybodaeth o CAH mewn copi caled a fformat digidol h.y. adroddiadau, rhestrau safleoedd neu ddogfennau prosiect eraill.

**5.4** Dylid defnyddio eich rhif ymholiad CAH yn unrhyw ddogfen gaiff ei chynhyrchu gyda'r data hwn. Defnyddiwch y geiriau canlynol wrth gyfeirio at CAH Heneb mewn unrhyw waith wedi neu heb ei gyhoeddi: **Yn cynnwys Data Cofnod yr Amgylchedd Hanesyddol Heneb, Rhif Ymholiad: ***** © CAH Ymddiriedolaeth Elusennol HENEB [a hawl bas data] [blwyddyn].**

**6.1** Pe bai angen rhagor o amser, dylid negydu a chytuno hyn yn ysgrifenedig gyda staff CAH cyn derbyn data CAH.

**6.2** Gellir sicrhau copïau o www.heneb.org.uk neu trwy gysylltu â CAH.

Heneb

LICENCE AGREEMENT on
THE PROVISION OF HENEB: THE TRUST FOR WELSH ARCHAEOLOGY
HISTORIC ENVIRONMENT RECORD DATA

**1. *Parties involved in this agreement***

The agreement for the provision of Historic Environment Record (HER) data is between Heneb: The Trust for Welsh Archaeology (hereafter the licensor) and the enquirer (hereafter the licensee).

**2. *Duration of the agreement***

***2.1*** The agreement is valid for a period of 1 year from submission of the enquiry.

***2.2*** After this period the HER dataset will be deleted from the licensee's computer systems, including email attachments and any removable media such as memory sticks or disks.

***2.3*** The licensee will not automatically be notified of any new data made available to the HER within the period of this agreement. If the project continues beyond the 1 year period then a second agreement must be obtained, and a second data search undertaken. This agreement cannot be extended.

***3. Nature of use***

The data to be provided is for the stated purpose, conducted by the licensee, within the duration of the agreement. The licensee understands the HER data may not be used for other than the stated purpose.

***4. Data***

***4.1*** The HER dataset will be provided in Shapefile & CSV format. An accompanying catalogue will be provided in PDF format.

***4.2*** The licensee will be responsible for the provision of any licensed OS digital map data and GIS software licenses.

***5. Restrictions on use***

***5.1*** The data is made available for use by the licensee for the project as specified under Section 3 of this agreement, only.

***5.2*** Digital HER data as supplied must not be altered or passed to any third party in any format within the terms of this agreement. HER data must not be shared with any third party unless otherwise agreed with the HER.

***5.3*** Reproduction of information should be discussed with Heneb HER to cover any possible problems with Crown Copyright and client confidentiality.

***5.4*** The Heneb HER must be acknowledged in any output (published or unpublished) arising from any project to which it contributes.

***5.5*** The data must not be used or retained beyond the date specified in this agreement.

***5.6*** National Grid References (NGRs) relating to findspots included in the supplied dataset must be downgraded to 4 figures in any output (published or unpublished) arising from the work.

***6. Provision of new or updated information to the HER***

***6.1*** New or updated information arising from the use or analysis of HER data must be supplied by the licensee to the HER within 6 months of the project being complete, or within a time limit previously agreed with the HER.

***6.2*** All new or updated information must meet the standards and criteria specified in the *Guidance for the Submission of Data to the Welsh Historic Environment Records (HERs)* and the approval of the HER.

**Additional Information**

**1.** HER data must not be shared with any third party unless otherwise agreed.

**2.1 - 2.3** New information is being added to the HER on a daily basis. If you wish to continue to use HER data outside the period covered by this agreement you must obtain a second agreement and data search. This will ensure that the most up to date information has been provided, and will help to protect the archaeological resource.

**3.** The licencee undertakes not to use HER data for other than the stated purpose.

**4.1** We are able to supply data in the following formats: PDF, HMTL, SHP (Esri Shapefile), CSV (for Microsoft Excel). If you require a different format please contact the HER directly.

**5.2** The licencee is permitted to share information derived from HER data in hard copy and digital formats. i.e. in reports, gazetteers, or other project documents.

**5.4** Please include your HER enquiry number in any document that is produced using this data. Use the following wording when referring to the Heneb HER in any published or unpublished works: **Contains Heneb Historic Environment Record Data, Enquiry Number: ***** © The Heneb HER Charitable Trust [and database right] [year].**

**6.1** Where a longer period of time is needed this must be negotiated and agreed in writing with HER staff prior to the provision of HER data.

**6.2** Copies can be obtained from www.heneb.org.uk or by contacting the HER.